12.11.20

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Dathlu crefft unigryw cerdd dant

Mae cerdd dant yn unigryw i ni'r Cymry ac yn plethu dau beth gwerthfawr yn ein diwylliant ni - crefft y gair a dawn cerddoriaeth a chanu.

Ond mae hi hefyd yn grefft sydd mor boblogaidd ag erioed, a bydd digon o gyfle i fwynhau'r traddodiad unigryw yma mewn rhaglen arbennig ar S4C, **Y Busnes Cerdd Dant 'Ma**.

Oherwydd y coronaferiws bu'n rhaid gohirio Gŵyl Cerdd Dant eleni - Gŵyl Bro Nansi (ar ôl y delynores enwog Nansi Richards) – oedd i'w chynnal yn Llanfyllin. Bu rhaid gohirio'r ŵyl y tro diwethaf iddi ymweld â'r ardal yma hefyd a hynny oherwydd Clwy Traed ar Gennau ym 1967!

Yn y rhaglen hon, cawn farn rhai o'r rheiny sy'n ymwneud â cherdd dant heddiw a chlywed pobl ifanc yn perfformio cymysgedd o'r hen a'r newydd.

Cawn glipiau o'r archif, rhannu hwyl ac ambell atgof a stori ddoniol gyda'r rhai mwyaf amlwg ym myd cerdd dant yng Nghymru.

Yn ogystal â chyfarfod â dros ugain o bobl sy'n ymwneud â'r grefft, cawn hefyd glywed chwe pherfformiad newydd, wedi eu recordio yn arbennig ar gyfer y rhaglen hon gan griw ifanc dawnus. A phob un yn cydnabod pwysigrwydd canu cerdd dant wrth iddyn nhw ddatblygu'n gantorion proffesiynol.

Bydd perfformiadau gan Mared Williams, Rhydian Jenkins, Huw Ynyr, Llio Evans, Casi Wyn a Steffan Rhys Hughes mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Cymru gyfan - gan gynnwys stiwdio Sain, yr Egin yng Nghaerfyrddin, Canolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd a'r Deml Heddwch i enwi dim ond rhai.

Bydd Steffan Rhys Hughes hefyd yn cyflwyno ar y cyd gyda Nia Roberts. Mae Steffan wedi bod yn brysur iawn yn ystod cyfnod clo yn trefnu a chynhyrchu fideos o sêr Cymru'r West End yn canu caneuon poblogaidd o amryw o sioeau cerdd.

Mae'r rhaglen hwyliog hon yn bwysig iawn eleni, yn ôl Dyfrig Davies, Cynhyrchydd **Y Busnes Cerdd Dant 'Ma**:

"Roedd hi'n fraint i gydweithio efo'r criw ifanc sy'n perfformio yn y rhaglen.

"Mae hi'n holl bwysig eleni fwy nag erioed i roi cyfleoedd i'r perfformwyr hyn yn ogystal â'r lleoliadau sydd wedi'i chael hi'n anodd iawn.

"Mae'n bwysig fod y bobl ifanc yma'n cael y cyfle i arddangos eu doniau ac mae'n wych fod S4C wedi ein galluogi ni i ddangos dawn unigryw cerdd dant ar sgrin."

Bydd amrywiaeth o gyflwyniadau, rhai yn draddodiadol, arbrofol, stompaidd ac ysgafn - ond pob un yn sicr o gynnig adloniant ar ei orau.

**Y Busnes Cerdd Dant 'Ma**
**21 Tachwedd 2020, 8.00**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Telesgop a Rondo Media ar gyfer S4C**

12.11.20

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Celebrating the unique craft of cerdd dant

Cerdd dant is unique to us in Wales and connects two precious things in our culture - the craft of the word and the talent of music and singing.

It's as popular as ever, and there will be plenty of opportunity to enjoy this unique tradition in a special programme on S4C, **Y Busnes Cerdd Dant 'Ma** (This Cerdd Dant Business).

Due to the coronavirus pandemic, this year's Cerdd Dant Festival in Llanfyllin - Gŵyl Bro Nansi (after the famous harpist Nansi Richards) – was postponed. The last time the festival visited this area in 1967, it also had to be postponed because of Foot and Mouth Disease!

In this programme, we hear from some of those involved in cerdd dant today and we get to enjoy a group of young people perform a mix of old and new.

We'll have clips from the archive and share the fun and some funny memories and stories with the most prominent people in cerdd dant in Wales.

As well as meeting over twenty people involved in the tradition, we also hear six new performances, specially recorded for this programme by a group of talented young people. All of whom recognize the importance of singing cerdd dant as they developed into professional singers.

There will be performances by Mared Williams, Rhydian Jenkins, Huw Ynyr, Llio Evans, Casi Wyn and Steffan Rhys Hughes in a variety of venues across the whole of Wales - including Sain studios, The Egin in Carmarthen, the Urdd Centre in Cardiff Bay and the Temple of Peace to name just a few.

Steffan Rhys Hughes will also be presenting the programme with Nia Roberts. Steffan has been very busy during the lockdown period arranging and producing videos of some of Wales's West End stars singing popular songs from various musicals.

This fun programme is something very important this year, says Dyfrig Davies, Producer of **Y Busnes Cerdd Dant 'Ma**:

"It was a privilege to work with the young people that perform on the show.

"This year it's more important than ever to provide opportunities for these performers, as well as the venues, that have found it very difficult.

"It is important that these young people have the opportunity to showcase their talents and it's great that S4C has enabled us to showcase the unique talent of cerdd dant on screen."

There will be a variety of settings and counter melodies, some traditional, experimental, stomp-like, and humorous -  all guaranteed to provide entertainment at its best.

**Y Busnes Cerdd Dant 'Ma**
**21 November 2020, 8.00**
**On Demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Telesgop and Rondo Media Production for S4C**